**ADRODDIAD I'R CABINET**
23 MEHEFIN 2015

**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS, AELOD CABINET ADNODDAU

**Pwnc:** ADOLYGIAD O GRONFEYDD

**Swyddog cyswllt:** DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

---

## 1. Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

1.1 Mae'r Cyngor yn dal nifer o gronfeydd fel rhan o'i strategaeth i reoli adnoddau yn ddarbodus. Defnyddir y cronfeydd yma i bwrpasau penodol er lles cymunedau Gwynedd. Mae'r defnydd o gronfeydd yn cefnogi cyflawni gwasanaethau a gwelliannau yn y sir, fel amlinellir yn y cynllun strategol corfforaethol.

1.2 Oherwydd yr her ariannol sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod 2015/16 – 2017/18, gofynnir i'r Cabinet –

- gymeradwyo paragraff 1.1 uchod a rhan 5 o'r adroddiad hwn fel Polisi'r Cyngor ar Gronfeydd;
- gymeradwyo'r symiau i'w ildio o amrywiol gronfeydd yn dilyn yr adolygiad (rhestr yn atodol) a throsgwlyddo £2.9m i'r Gronfa Ddiswyddo, a £1.5m i'r Gronfa Trawsffurfio / Buddsoddi i Arbed.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

2.1 Gellid ystyried "reserfau" i fod yn "arian yn y banc". Nid ydynt yn gyllidebau blynyddol; dim ond unwaith gellid eu gwario.

2.2 Yn unol â'r gofyniad statudol, ddaru'r Prif Swyddog Cyllid adrodd ar ddigonolrwydd y reserfau pryd ddaru'r Cyngor gymeradwyo'r gyllideb flynyddol a lefel y dreth cyngor.

2.3 Roedd barn y Prif Swyddog Cyllid yn rhan 8 o'r adroddiad manwl ar Gyllideb 2015/16 a'r Strategaeth Ariannol 2015/16 – 2017/18 a gyflwynwyd i'r Cyngor llawn ar 5 Mawrth, a chyflwynwyd dadansoddiad o gronfeydd penodol fel Atodiad 2 i'r adroddiad ar y gyllideb.

2.4 Fel adroddwyd i gyfarfod 2 Mehefin y Cabinet, yn rhan 5 o'r adroddiad "alldro", roedd y cronfeydd ar fantolen y Cyngor wedi gostwng yn ystod 2014/15 fel a ganlyn:

| | **31/03/2014** | **31/03/2015** |
|---|---|---|
| Balansau Cyffredinol | £8.4m | £6.4m |
| Cronfeydd Penodol | £49.8m | £48.5m |
| Balansau Ysgolion | £3.8m | £3.5m |

## 3. Balansau Cyffredinol

3.1 Bydd aelodau yn cofio fod £2m pellach o'r balansau cyffredinol eisoes wedi'u hymrwymo eleni, yn Strategaeth Ariannol 2015/16 (penderfyniad Cyngor llawn 5 Mawrth).

3.2 Mae'r Balansau Cyffredinol yn swm wrth gefn sydd ar gael i dalu mewn amgylchiadau anrhagweledig neu eithriadol. Yn aml, bydd archwilwyr allanol yn cyfeirio at lefel y balansau cyffredinol wrth ystyried iechyd ariannol gwahanol gyrff.

3.3 Yn ei adroddiad "Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru" (cyhoeddwyd 27 Ionawr 2014), mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi datgan (ym mharagraff 1.8):

> "Gall cynghorau ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i'w helpu i gydbwyso eu cyllidebau lle nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig neu lle mae'r incwm yn llai na'r disgwyl. Fodd bynnag, ni fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn. Mae lefel synhwyrol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn elfen allweddol o sefydlogrwydd ariannol; bydd isafswm y lefel briodol yn amrywio gan ddibynnu ar rwymedigaethau hysbys a phosibl awdurdod a'i gynlluniau gwariant. Ceir arwyddion bod ambell gyngor yn dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd."

3.4 Ni ddylid defnyddio'r balansau cyffredinol yn "rheolaidd" er mwyn ariannu gwariant parhaus. Fodd bynnag, yn wyneb y bwlch ariannol sylweddol, defnyddir £2m yn 2015/16 er mwyn cael amser i ystyried yn ystod 2015/16 a blaenoriaethu'r toriadau mewn modd cynhwysol. Bydd y defnydd yma o £2m o'r balansau cyffredinol i bontio yn arfer dda, os bydd y Cyngor yn cymryd ei benderfyniadau anodd yn 2015/16 cyn gosod cyllideb gynaliadwy erbyn 2016/17.

## 4. Adolygiad o Gronfeydd Penodol

4.1 Mae'r gostyngiad yn lefel y balansau cyffredinol (i tua £4.4m erbyn 31/03/2016) yn golygu ei fod yn hanfodol i'r Cyngor neilltuo (neu glustnodi) cronfeydd er mwyn delio gyda'r prif risgiau sydd wedi'u hadnabod dros y tymor-canol.

4.2 Un defnydd anochel o adnoddau un-tro yw ar gyfer ariannu cost diswyddo a chost ymddeol cynnar sy'n anochel wrth weithredu cynlluniau arbedion effeithlonrwydd neu doriadau i wasanaethau. Mae'n amhosibl darogan yn gywir faint o arian fydd angen ar gyfer cost diswyddo / rhyddhau pensiwn, ond bydd yn fwy na'r swm clustnodwyd eisoes. Hefyd, bydd angen adnodd un-tro ar gyfer ariannu cynlluniau "buddsoddi i arbed".

4.3 Ar ôl i'r Cabinet (ar 5 Mai) ymrwymo £1.4m tuag at y Cynllun Goleuadau Stryd, roedd y gronfa buddsoddi i arbed bron yn wag.

4.4 Felly, cynhaliwyd adolygiad trylwyr o'r cronfeydd penodol, gyda golwg ar ail-ddyrannu cyfran o'r adnodd un-tro yma yn y gronfa diswyddo, neu yn y gronfa trawsffurfio / buddsoddi i arbed. Llwyddwyd i gynaeafu arian o'r cronfeydd drwy gymryd agwedd mwy llym na fu yn hanesyddol wrth fynnu cyfiawnhad o'r cronfeydd a'u lefelau.

4.5 Yn yr atodiad, mae rhestr o'r holl gronfeydd yn dangos symiau argymhellir ildio tuag at flaenoriaethau corfforaethol eraill, a'r symiau ar ôl mewn cronfeydd erbyn 2015/16.

**4.6 Argymhellir trosglwyddo'r cyfanswm £4,486,685 –**

- **£2,986,685 i'r Gronfa Ddiswyddo;**
- **£1,500,000 i'r Gronfa Trawsffurfio / Buddsoddi i Arbed.**

4.7 Wrth gwrs, byddai'r defnydd hyn yn unol â'r egwyddor mae Swyddfa Archwilio Cymru yn awgrymu yn 3.3 uchod.

## 5. Polisi ar gyfer Cronfeydd

5.1 Cedwir cronfeydd penodol (neu reserfau wedi'u clustnodi) naill ai dan rym wedi'i ddirprwyo i brif swyddogion, neu gan y Cabinet.

5.2 Er mwyn diffinio "cronfeydd", rhaid nodi'r driniaeth o "darpariaethau". Mae darpariaethau wedi'u nodi yn y cyfrifon ar gyfer setlo amcangyfrif o ymrwymiadau sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol.

5.3 Mae cronfeydd yn symiau sydd wedi'u neilltuo ar gyfer pwrpasau penodol, neu yn arian wedi'i adeiladu i gwrdd ag ymrwymiadau a ragwelir.

5.4 Ar gyfer pob cronfa a sefydlir, bydd y pwrpas / defnydd (rheswm dros ei greu / sut gellid ei ddefnyddio) wedi'i ddiffinio, a bydd rheolaeth dros drafodion (pa brif swyddog sydd â'r grym dirprwyedig i'w wario) wedi'i adnabod.

5.5 Dim ond yn lleol gellid cyrraedd barn ystyrlon, a chymerir penderfyniadau gan aelodau etholedig wedi iddynt ystyried gwybodaeth a chyngor a ddarperir gan y Prif Swyddog Cyllid.

5.6 Defnyddir cronfeydd adrannau unigol neu gronfeydd corfforaethol er mwyn llyfnhau pwysedd dros flynyddoedd (e.e. y gronfa argyfwng tywydd garw yn y maes gwasanaeth Priffyrdd).

5.7 Mewn cyfnod o galedi parhaus, bydd mwy o ofyn i feysydd gwasanaeth newid ac addasu i fod yn effeithiol. Mae cynlluniau effeithiolrwydd yn cynnwys newidiadau gyda chostau un-tro, ac mae polisi cronfeydd y Cyngor yn adnabod hynny, gyda'r Adrannau yn dal cronfeydd i'w defnyddio yn unol ag egwyddorion cyffredinol wedi'u cytuno gan y Prif Swyddog Cyllid a'r Cabinet.

5.8 Sefydlir cronfeydd adrannol o adnoddau tanwariant o fewn blwyddyn, a bydd yr Aelod Cabinet perthnasol yn goruchwylio'r defnydd o gronfeydd ar brosiectau penodol. Lle ni ellir cwrdd â phwysau ar wasanaethau o fewn blwyddyn, yna gellid defnyddio cronfeydd adrannol er mwyn wynebu'r pwysedd net.

5.9 Sefydlir / defnyddir cronfeydd corfforaethol gan y Prif Swyddog Cyllid a'r Cabinet, ar sail angen a gofynion wedi'u cynllunio / rhagweld.

5.10 Gellid ariannu gwariant anorfod anrhagweledig / argyfwng o'r balansau cyffredinol, dim ond gyda chymeradwyaeth y Cabinet.

5.11 Mae gan y Prif Swyddog Cyllid gyfrifoldeb personol statudol (dan Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003) i sicrhau stiwardiaeth briodol o gronfeydd, felly bydd yn cynnal adolygiad parhaus o'i digonolrwydd a'i defnydd. Bydd yr adroddiad cyllideb blynyddol i'r Cyngor yn cynnwys barn y Prif Swyddog Cyllid ar gronfeydd, yng nghyd-destun y strategaeth ariannol tymor canol. Hefyd, adroddir i'r Cabinet er cymeradwyaeth o addasiadau sylweddol i gronfeydd.

5.12 Bydd archwilwyr allanol yn adolygu trefniadau i sicrhau fod statws ariannol y Cyngor yn gadarn, a bydd hyn yn cynnwys adrodd ar y lefel o reserfau, yng nghyd-destun eu gwybodaeth o berfformiad ariannol yr awdurdod. Er hynny, nid cyfrifoldeb yr archwilwyr yw pennu lefel gorau neu isafswm y reserfau / balansau.

5.13 Mae'r Cyngor yn cymryd agwedd asesu risg tuag at gynnal lefelau digonol o falansau a reserfau er mwyn cwrdd ag anghenion gwario'r dyfodol. Wrth ystyried y gyllideb flynyddol a'r Strategaeth Ariannol tymor canol, bydd y Cyngor yn gosod allan ei fwriad ynghylch lefel y balansau cyffredinol a chronfeydd, yng nghyd-destun yr holl risgiau perthnasol, y ddarpariaeth ar gyfer chwyddiant, demograffi, ayb, yn y gyllideb.

## 6. Camau nesaf ac amserlen

6.1 Gyda chymeradwyaeth y Cabinet, bydd yr adolygiad a'r trosglwyddiadau amlinellwyd yn rhan 4 o'r adroddiad ac yn yr atodiad yn cael ei adlewyrchu yng nghyfrifon y Cyngor ar 31/03/2015.

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Rwy'n croesawu'r adroddiad pwysig hwn. Mae'n allweddol, ar adeg fel hyn pan y mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn difrifoli ac mae'n rhaid wynebu'r rheidrwydd i newid, bod gennym gronfeydd unwaith ac am byth sydd yn ein galluogi i hwyluso'r newidiadau hynny.

Rwy'n ddiolchgar hefyd i'r adrannau am eu cydweithrediad. Yn yr achosion lle mae argymhelliad i gynaeafu arian yn ôl, roedd gan adrannau gynlluniau a bwriadau ar gyfer y defnydd o'r arian hynny. Fodd bynnag, yn sgil trafodaethau gyda'r Pennaeth Cyllid, maent wedi derbyn bod y gofyn am adnoddau ar gyfer trawsffurfio a buddsoddi i arbed, yn aml er mwyn gwireddu arbedion parhaol ac adnoddau i wynebu costau diswyddo, yn goruchafu ar eu cynlluniau hwy o ran blaenoriaeth.

Mae hefyd yn bwysig peidio â chamddeall gwerth y cronfeydd hyn. Nid modd o gyflenwi anghenion tymor hir yw'r cronfeydd hyn. Fel y mae'r Pennaeth Cyllid yn nodi, *"arian yn y banc"* yw'r symiau hyn; nid ydynt yn gyllidebau blynyddol a dim ond unwaith y gellir eu gwario. Rhaid cofio hynny wrth wneud penderfyniadau unigol ar y defnydd o'r symiau hyn maes o law.

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau cywirdeb y cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 - Crynodeb o'r Balansau